

Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 23 Tachwedd 2021

Eitem ar yr Agenda	Pwnc	Penderfyniad
1	YMDDIHEURIADAU	Nid oedd unrhyw ymddiheuriadau.
2	DATGAN CYSYLLTIAD	Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o gysylltiad.
3	MATERION BRYD	Nid oedd unrhyw faterion bryd.
4	COFNODION	PENDERFYNWYD bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Hydref 2021 yn cael eu derbyn a'u cadarnhau yn gofnod cywir.
5	Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM FEIFOD	<p>PENDERFYNWYD –</p> <p>(a) <i>Bod Meifod yn cael ei agor fel gwasanaeth wedi ei reoli gan y Cyngor ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu cyn gynted ag y bo'n ddiogel i wneud hynny, yn dilyn buddsoddiad angenrheidiol i'r adeilad/cyfleusterau presennol. Yr oedd disgwyl y gallai'r gwasanaeth ailagor erbyn Chwefror 2022, fodd bynnag gall hyn fod yn gynt os gorffennir y gwaith yn gyflym;</i></p> <p>(b) <i>bod swyddogion yn darparu opsiynau i aelodau eu hystyried drwy'r broses wleidyddol sefydledig ar:</i></p> <ul style="list-style-type: none"> <i>• ffyrdd newydd o weithio ym Meifod i wella dysgu a sgiliau ar amrediad o weithgareddau, gan gynnwys gweithio â phren</i> <i>• modelau cyflawni gwasanaeth amgen ar gyfer y gweithredu ym Meifod, gyda'r bwriad o wella cynaliadwyedd hir-dymor y gwasanaeth, gan fod y brydles ar yr adeilad yn dod i ben mewn 4 blynedd</i> <p>(c) <i>bod swyddogion yn sefydlu grŵp budd-ddeiliaid yn cynnwys unigolion sy'n mynychu</i></p>

Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 23 Tachwedd 2021

Agenda Item No	Topic	Decision
		<i>Meifod a pherthnasau cynrychioladol, neu eiriolwyr, i sicrhau eu bod yn cael ymwneud ag ailagoriad y gwasanaeth ynghyd â datblygu opsiynau ar gyfer ei weithredu yn y dyfodol.</i>
6	PONT LLANNERCH	PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn cadarnhau cefnogaeth i'r egwyddor o newid y bont, yn amodol ar sicrhau'r cyllid angenrheidiol. Golyga hyn gysylltu â Llywodraeth Cymru i wneud cais am nawdd allanol.
7	CYMERADWYO CAIS CRONFA CODI'R GWASTAD LLYWODRAETH Y DU – ETHOLAETH GORLLEWIN CLWYD	<p>PENDERFYNWYD bod y Cabinet –</p> <p>(a) yn cefnogi thema'r cais, y prosiectau arfaethedig sydd i'w cynnwys yn y cais, a gwerth dangosol bras pob prosiect, ac</p> <p>(b) yn dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr a Phennaeth Cynllunio, Gwasanaethau Diogelu'r Cyhoedd a Chefn Gwlad, mewn ymgynghoriad â Swyddog Adran 151, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd a'r Arweinydd, i gaboli'r prosiectau a chostau'r prosiectau fel bo'r angen, ac i benderfynu ar gais i'w gyflwyno i Lywodraeth y DU gan Gyngor Sir Ddinbych mewn partneriaeth â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar gyfer etholaeth Gorllewin Clwyd.</p>
8	GWAHODDIAD I DENDRO'R GWASANAETH ASESU COF RHANBARTHOL	<p>PENDERFYNWYD bod –</p> <p>(a) Cyngor Sir Ddinbych i weithredu fel Comisiynydd Arweiniol y Gwahoddiad i Dendro'r Gwasanaeth Asesu Cof Rhanbarthol;</p> <p>(b) yr ymarferiad Gwahoddiad i Dendro i gael ei arwain gan dîm caffael Cyngor Sir Ddinbych er mwyn sicrhau bod y drefn briodol yn cael ei dilyn, sydd yn gymwys i lefel gwerth y contract posibl, ac</p>

Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 23 Tachwedd 2021

Agenda Item No	Topic	Decision
		(c) y Cabinet i gadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 1 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau.
9	TENDR CERBYDAU FFLYD NEWYDD AR GYFER Y MODEL GWASTRAFF NEWYDD	<p>PENDERFYNWYD bod y Cabinet –</p> <p>(a) yn cymeradwyo'r ymarferiad tendro arfaethedig fel ag y nodwyd yn yr adroddiad;</p> <p>(b) yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o'r Effaith ar Les (Atodiad 1 yr adroddiad), Ffurflen Comisiynu'r Fflyd (Atodiad 2 yr adroddiad), a'r Llinell Amser (Atodiad 3 yr adroddiad) fel rhan o'i ystyriaethau;</p> <p>(c) yn cadarnhau y caiff y penderfyniad ei weithredu yn syth oherwydd bod angen cychwyn y Gwahoddiad i Dendro yn nechrau Rhagfyr 2021 i sicrhau y derbynnir y nwyddau mewn da bryd ar gyfer lansio'r model gwasanaeth newydd. Mae hyn oherwydd bod amser arwain y cerbydau hyn yn hir, a</p> <p>(d) yn nodi y bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet yn Ionawr 2022 i gymeradwyo'r Dyfarnu Contract yn dilyn wedi'r ymarferiad tendro, bydd hefyd yn cadarnhau trefniadau rheoli contractau, costau wedi eu tendro, a manylion contractau.</p>
10	DIWEDDARIAD AR Y CYNLLUN CORFFORAETHOL, CHWARTER 2, 2021-2022	PENDERFYNWYD bod y Cabinet yn nodi'r datblygiad yng nghyflawni'r Cynllun Corfforaethol fel ag y mae ddiwedd chwarter 2, 2021/2021, ac yn cadarnhau cynnwys yr adroddiad drafft.
11	ADRODDIAD CYLLID	<p>PENDERFYNWYD bod y Cabinet –</p> <p>(a) yn nodi'r cyllidebau ar gyfer 2021/22 ac yn symud ymlaen yn erbyn y strategaeth gyllid a gytunwyd arni, ac</p>

Cyngor Sir Ddinbych – Penderfyniadau a gymerwyd gan y Cabinet , Dydd Mawrth, 23 Tachwedd 2021

Agenda Item No	Topic	Decision
		<i>(b) yn cymeradwyo addasu of Llys Anwyl, y Rhyl, i fflatiau ar gyfer rhentu cymdeithasol (fel y nodir yn Adran 6.7 yr adroddiad, ac Atodiadau 5 a 6 yr adroddiad).</i>
12	RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CABINET	PENDERFYNWYD y dylid cofnodi rhaglen gwaith i'r dyfodol y Cabinet.